# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn Y Forwyn

Dyddiad yr arolygiad: 26/01/2026

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn yn gymuned gefnogol a chynhwysol sy’n rhoi pwyslais cadarn ar gynnydd a lles disgyblion. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir, gyda’r nod o sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu cyfoethog mewn amgylcheddau dysgu difyr a gofalgar. Mae hyn yn cyfrannu’n fwriadus at ymddygiad ardderchog ac agweddau cadarnhaol at ddysgu ymhlith disgyblion.

Mae gweledigaeth bwrpasol y pennaeth, sy’n cynnwys cyfraniadau ystyrlon gan y staff a’r gymuned ehangach, yn cefnogi trefniadau gwella’r ysgol yn llwyddiannus, ac mae’r cyfrifoldebau arwain yn sefydledig ac yn gynaledig ar draws yr ysgol.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio’n fwriadus. Maent yn fodelau iaith effeithiol ac yn canolbwyntio’n drwyadl ar hyrwyddo gofal a dysgu’r disgyblion. Mae hyn yn cefnogi cynnydd da ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion o’u mannau cychwyn. Mae’r staff yn cydweithio’n ddiwyd â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion disgyblion yn dda, sy’n cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu sy’n ysgogi disgyblion yn bwrpasol ac yn eu galluogi i wneud cynnydd buddiol. Mae ansawdd addysgu’r athrawon yn gadarn ar draws yr ysgol. Ar y cyfan, mae staff yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu. Er hyn, nid yw adborth athrawon yn adnabod y camau nesaf yn y dysgu yn ddigon cyson. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw’r gweithgareddau’n herio disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Mae staff yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a’u teimladau’n llwyddiannus, sy’n hybu datblygiad eu parch at eraill yn ddeallus. Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol buddiol, sy’n cyfrannu’n gryf at eu hymwybyddiaeth o’u cynefin a’u diwylliant.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cryfhau adborth i gefnogi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion

A2 Darparu profiadau dysgu, ar draws y cwricwlwm, sy'n herio disgyblion i gymhwyso'u medrau yn effeithiol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/03/2026